# Cyngor Cymuned Ganllwyd

## Cofnodion cyfarfod Nos Fercher Rhagfyr 12ed 2018.

**Presennol.**

Cyng D.Morris, Cyng S.Roberts,Cyng G.Hughes,Cyng G.Jones,Cyng C.Dixon,Cyng P.Jenkins.

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 14eg Tachwedd 2018.**

Cynigwyd yn gywir gan Cyng Roberts yn cael ei eilio gan Cyng Morris.

**Diffribilydd**- Nodyn o ddiolch i deulu y diweddar Arthur Owen(Son)wedi ei ddanfon i Llygad y Dydd (Papur lleol).

**Cynghorydd Sir –**

**Twristiaeth yng Ngwynedd** – Adroddodd Cyng Peredur Jenkins fod Cyngor Gwynedd wedi danfon ymateb i Gydlynydd Ymgyrch Twristiaeth Cylch yr Iaith (Howard Hughes) i'r pwyntiau a godwyd yn adroddiad Cylch yr Iaith ar y mater. Dywedodd y Cyng Jenkins y byddai yn danfon copi o'r ymateb i'r Cyngor Cymuned.

**Cyllideb Cyngor Gwynedd am y flwyddyn 2019-2020**

Derbyniwyd adroddiad gan Cyng Peredur Jenkins y bydd £6.5m o fwlch yn cyllideb y Cyngor Sir am y flwyddyn ariannol nesaf. Mae Cyngor Gwynedd yn trafod sut i lenwi y bwlch hwn i.e. torri gwasanaethau, codi Treth Cymundedol.

Bydd y Cyngor yn penderfynu o fewn yr wythnosau nesaf pa gamau fydd yn cael eu cymeryd a bydd y manylion yn cael eu rhannu wedi hynny.

**Materion Ariannol**

**Cais Preseapt** – Trafodwyd maint y cais preseapt y Cyngor Cymuned am y flwyddyn ariannol 2019-2020 . Cyflwynodd y Clerc fantolen o'r amcan gostau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf (gweler isod). Yn dilyn trafodaeth ac astudiaeth o'r fantolen penderfynodd y Cyngor ymgeisio am £3,000.

**Cais praesept 2019-20.**

| | |
|---|---|
| Yn y banc 01/02/19 | £5555.47 |
| Llai sieciau heb glirio | £ 0 |

Incwm arfaethedig am y flwyddyn:

| | |
|---|---|
| Precept | |
| Ad-daliad cynnal llwybrau | £ 575 |
| Ad daliad TAW | £ 400 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm (heb preasept) | £6580 .47 |

| | | |
|---|---|---|
| Taliadau | Cynnal Llwybrau Cyhoeddus | £ 750 |
| | Biniau Halen | £ 800 |
| | Llogi'r Neuadd | £ 225 |
| | Cyflog Clerc | £1200 |
| | Ysiwriant | £ 450 |
| | Rhoddion | £ 600 |
| | Toiled Ganllwyd | £ 275 |
| | Archwilydd | £ 625 |
| | (Eitemau amrywiol) | £ 850 |

| | |
|---|---|
| Cyfanswm | £5775.00 |
| Gweddill (heb praesept) | £805.47 |

**Costau Awdit** – Mae’r cyngor wedi derbyn anfoneb gan Swyddfa Archwilio Cymru am £438.30 am waith yn ymwneud ag Awdit a Cyngor am y flwyddyn ariannol diwethaf. Mae’r swm yma wedi codi o £201 am y flwyddyn flaenorol. Mae’r Clerc wedi derbyn ebost gan Un Llais Cymru yn nodi fod llawer o gwynion wedi eu derbyn ynglyn a’r cwmni awdit BDO a Swyddfa Archwilio Cymru ynglyn a’r costau a’r gwasanaeth yn ymwneud a’r Awdit. Nid oes unrhyw ymateb hyd yn hyn ynglyn a’r cwynion a godwyd. Penderfynodd y Cyngor i dalu yr anfoneb.

**Adran 137 (4) (a) Deddf Llywodraeth Leol 1972** – Derbyniwyd llythyr gan Llywodraeth Cymru yn rhoi gwybod i’r Cyngor Cymuned mai £8.12 yw’r swn priodol ar gyfer 2019/2020 at ddibenion Adran 137 (4)(a) o’r ddeddf yma ar gyfer Cyngor Cymuned y Ganllwyd.

**Cyllid Misol - Tachwedd 2018.**

**Yn y Banc ar ddechrau’r Mis: £5972.43**

**Derbyniwyd:**

**Dim**

**Taliadau:**

| | |
|---|---|
| **Cyflog/Paye** | **£100.00** |
| **Cyngor Gwynedd (awdit)** | **£132.00** |
| **Rhys Jones (trydanwr diffibrilydd)** | **£185.16** |

**Yn y banc diwedd mis £5555.47**

Mae'r aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg ariannol y cyngor

**Ad Daliad anfoneb Gwyn Jones, Trydanwr** – Mae'r Clerc wedi cysylltu a'r Ymddiriaedolaeth Genedlaethol (Mr Gethin Evans) yn gwneud cais am ad daliad o'r anfoneb. Heb dderbyn unrhyw ddiweddariad hyd yn hyn.

**Banc HSBC** – Mae'r Clerc yn dal mewn cysylltiad a'r Banc ynglyn a chyfrif y Cyngor. Mae'r Clerc wedi danfon manylion i'r Banc ynglyn a Rheolwyr y Cyfrif a mae ffurflen Mandate newydd wedi ei chwblhau. Rydym yn awr yn aros i glywed ymhellach am unrhyw fanylion arall y bydd y Banc eu hangen.

**Llythyrau ac Ebyst –**

Parc Cenedlaethol Eryri – Cais NP5/60/156 (Gosod 2 ffenestr to yn Tyddyn Bach, Ganllwyd) – Dim gwrthwynebiad gan y Cyngor i'r cais.

Ymhynghoriad a Pholisi Gosod Tai – derbyniwyd ebost yn hysbysu y Cyngor fod Cyngor Gwynedd wedi creu ymgynghoriad ynglyn a gosod tai cyffredin Gwynedd. Mae'r cynghorwyr wedi eu gwahodd i gymeryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy ymweld a safle We y Cyngor www.gwynedd.llyw.cymru/taicymdeithasol

Derbyniwyd ebost gan Bethan Roberts, Cyngor Gwynedd yn rhoi cynnig i'r Cyngor Cymuned i fod mewn partneriaeth a Chyngor Gwynedd ynglyn a thoiled y pentref am y ddwy flynedd ariannol nesaf (ar yr un amodau a phresennol – Sef £250/flwyddyn). Yn dilyn trafodaeth pasiwyd i barhau gyda'r cytundeb.

**Unrhyw Fater arall** – dim.